



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2001 Rhif 890 (Cy.41)**

**2001 No. 890 (W.41)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau  
Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth)  
(Cymru) (Diwygio)  
2001

The Education (Individual Pupils'  
Achievements) (Information)  
(Wales) (Amendment) Regulations  
2001

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) 1997 o ganlyniad i newidiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol a ddaeth i rym ym mis Awst 2000. Cyn y newidiadau hynny, nid oedd darpariaeth ar gyfer mesur lefelau cyrhaeddiad disgyblion mewn celf, cerddoriaeth ac addysg gorfforol yng nghyfnod allweddol 3 drwy gyfrwng graddfa ffurfiol. Yn hytrach, i fesur cyraeddiadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 3, yr oedd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys yr hyn a elwid "Disgrifiadau diwedd cyfnod allweddol" ar gyfer pob targed cyrhaeddiad. O dan y Cwricwlwm Cenedlaethol newydd, mae yna ddarpariaeth erbyn hyn ar gyfer mesur lefel cyrhaeddiad disgyblion yn y pynciau hyn drwy gyfrwng graddfa. Mae'r diwygiadau a wneir yn sgîl y Rheoliadau hyn i Reoliadau 1997 yn adlewyrchu'r newidiadau hyn.

These Regulations amend the Education (Individual Pupils' Achievements) (Information) (Wales) Regulations 1997 in the light of changes to the National Curriculum which came into effect in August 2000. Before those changes, there was no provision for measuring, by means of a formal scale, pupils' levels of attainment in art, music and physical education at key stage 3. Instead, for the purpose of measuring pupils' achievements at key stage 3, the National Curriculum contained what were termed "End of key stage descriptions" for each attainment target. Under the new National Curriculum provision is now made for measuring pupils levels of attainment in those subjects by means of a scale. The amendments which these Regulations make to the 1997 Regulations simply reflect those changes.

**2001 Rhif 890 (Cy. 41)****2001 No. 890 (W. 41 )****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2001****The Education (Individual Pupils' Achievements) (Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2001***Wedi'u gwneud**8 Mawrth 2001**Made**8th March 2001**Yn dod i rym**1 Ebrill 2001**Coming into force**1st April 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan nad oes neb yr oedd yn ymddangos iddo y byddai'n ddymunol ymgynghori â hwy, yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 408 a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(a) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(b).

The National Assembly for Wales, there being no persons with whom it appeared to it that consultation would be desirable, makes the following Regulations in exercise of the powers conferred by sections 408 and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(a) and now vested in the National Assembly for Wales(b).

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2001 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2001.

**Citation and commencement**

1. These Regulations are called the Education (Individual Pupils' Achievements) (Information) (Wales) (Amendment) Regulations 2001 and come into force on 1st April 2001.

**Diwygio Rheoliadau**

2.-(1) Mae Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) 1997(c) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

**Amendment of Regulations**

2.-(1) The Education (Individual Pupils' Achievements) (Information) (Wales) Regulations 1997(c) are amended as follows.

(2) Yn rheoliad 3(10), hepgorwch is-baragraff (c).

(2) In regulation 3(10), omit sub-paragraph (c).

(3) Yn rheoliad 6(2), hepgorwch "(other than art, music and physical education)" yn is-baragraff (a) a'r cyfan o is-baragraff (b).

(3) In regulation 6(2), omit "(other than art, music and physical education)" in sub-paragraph (a) and the whole of sub-paragraph (b).

(4) Ym mharagraff 3 o Atodlen 1, hepgorwch "(other than art, music and physical education)" yn is-baragraff (1) a'r cyfan o is-baragraff (2).

(4) In paragraph 3 of Schedule 1, omit "(other than art, music and physical education)" in sub-paragraph (1) and the whole of sub-paragraph (2).

(a) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 408 gan baragraff 30(a) o Atodlen 7 i Ddeddf Addysg 1997 (p.44) a chan baragraff 106 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Framwaith Ysgolion 1998 (p.31); ac fe'i diwygir yn rhagolygol ar ddyddiad i'w benodi gan baragraff 57 o Atodlen 9 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21). I gael ystyr "regulations" a "prescribed" gweler adran 579(1) o Ddeddf Addysg 1996.

(b) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1997/573, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/2709, O.S. 1998/2705 ac O.S. 1999/1497.

(a) 1996 c.56. Section 408 is amended by paragraph 30(a) of Schedule 7 to the Education Act 1997 (c.44) and by paragraph 106 of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31); and is prospectively amended by paragraph 57 of Schedule 9 to the Learning and Skills Act 2000 (c.21) from a date to be appointed. For the meaning of "regulations" and "prescribed" see section 579(1) of the Education Act 1996.

(b) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1997/573, as amended by S.I. 1997/2709, S.I. 1998/2705 and S.I. 1999/1497.

(5) Ym mharagraff 3 o Atodlen 2, hepgorwch “(other than art, music and physical education)” yn is-baragraff (2).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (a)

(5) In paragraph 3 of Schedule 2, omit “(other than art, music and physical education)” in sub-paragraph (2).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

*D.Elis Thomas*

8 Mawrth 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

8th March 2001

The Presiding Officer of the National Assembly

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2001 Rhif 890 (Cy. 41 )**

**ADDYSG, CYMRU**

Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau  
Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth)  
(Cymru) (Diwygio)  
2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2001 No. 890 (W. 41 )**

**EDUCATION, WALES**

The Education (Individual Pupils'  
Achievements) (Information)  
(Wales) (Amendment) Regulations  
2001

© Hawlfraint y Goron 2000

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£1.75**

W/183/06/01

ON

© Crown copyright 2000

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090228-9



9 780110 902289